

Bargen Newydd
i'r Gweithlu
Addysg



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Arweinyddiaeth

**Adolygiad arweinyddiaeth unigol wedi ei gwblhau
gan bennaeth cynorthwyol
mewn ysgol gynradd**

Arwain, dysgu, ysbrydoli

ISBN digidol 978 1 4734 4317 4
© Hawlfraint y Goron Awst 2015
WG25976

Safonau Arweinyddiaeth – adolygiad arweinyddiaeth unigol

Diben y matrices hwn yw cefnogi ymarferwyr wrth iddynt adolygu'u harferion yn unol â Safonau Arweinyddiaeth ac wrth iddynt nodi blaenoriaethau ar gyfer datblygu sgiliau arweinyddiaeth ymhellach.

Y Safonau Arweinyddiaeth

Caiff y safonau arweinyddiaeth eu trefnu o dan y meysydd allweddol canlynol:

Creu cyfeiriad strategol.
Arwain o ran dysgu ac addysgu.
Datblygu a gweithio gydag eraill.
Rheoli'r ysgol.
Sicrhau atebolrwydd.
Cryfhau'r ffocws cymunedol.

Rhoddir disgrifydd fel rhagddodiad ar gyfer pob maes allweddol sy'n pennu ffocws y safonau yn y maes allweddol.

Rhoi'r safonau ar waith:

- Mae'n ofynnol i **Benaethiaid** fodloni'r Safonau Arweinyddiaeth yn llawn. Gallant ddefnyddio'r adolygiad arweinyddiaeth unigol i'w cefnogi wrth iddynt barhau i ddatblygu sgiliau arweinyddiaeth.
- Bydd ymarferwyr eraill (**athrawon a staff cymorth**) yn bodloni'r safonau i raddau gwahanol gan ddibynnu ar ofynion eu swydd a'u dyheadau proffesiynol. Byddant yn gallu defnyddio'r safonau i hysbysu'r broses o ddatblygu'u sgiliau arweinyddiaeth. Mae'r matrices adolygiad arweinyddiaeth unigol yn eu helpu i bennu i ba raddau y mae eu harferion yn bodloni'r safonau eisoes ac yn eu galluogi i flaenoriaethu gweithgareddau ar gyfer datblygu sgiliau arweinyddiaeth.

Defnyddio'r adolygiad arweinyddiaeth unigol

- Mae ymarferwyr yn gallu dewis y ffordd orau o ddefnyddio'r matrices at eu dibenion a'u hamgylchiadau penodol hwy.
- Mae'r matrices yn caniatáu i ymarferwyr ystyried y safonau sydd eu hangen a'r priodoleddau craidd cysylltiedig ar gyfer pob maes allweddol. Drwy adolygu'u harferion yn unol â'r datganiadau gallant ddangos lle y mae ganddynt dystiolaeth i'w dangos yn barod, dangos cryfder y dystiolaeth honno a darparu enghreifftiau o'r mathau o dystiolaeth sydd ar gael.. Mae'r matrices hefyd yn caniatáu i ymarferwyr gynllunio gweithgareddau datblygu proffesiynol priodol i nerthu eu tystiolaeth
- Gall yr hunanasesiadau gefnogi adolygiadau rheoli perfformiad a helpu'r ymarferwyr hynny sy'n gorfod darparu tystiolaeth benodol at ddibenion asesu, megis CPCP.

Pennu cyfeiriad strategol

Mae gallu meddwl am y dyfodol mewn ffordd adeiladol yn hanfodol ar gyfer arweinyddiaeth effeithiol. Dylai arweinwyr greu gweledigaeth strategol gyffredinol a chorfforaethol sy'n ysbrydoli ac yn ysgogi pob aelod o gymuned yr ysgol. Dylai'r weledigaeth hon ymgorffori gwerthoedd addysgol a phwrrpas moesol y tîm arweinyddiaeth a'r corff llywodraethu i sicrhau bod yr ysgol yn gwella a datblygu.

	Safon Arweinyddiaeth	Pa dystiolaeth sydd gennyf yn erbyn y safon yma?	Beth fyddaf yn ei wneud nesaf i lenwi'r bylchau a hybu fy natblygiad arweinyddiaeth?
1	Sicrhau bod y weledigaeth ar gyfer yr ysgol yn cael ei chyfleu'n glir, ei rhannu, ei deall, ac yn cael ei gweithredu'n effeithiol gan bawb.	-Bydd y weledigaeth yn cael ei chyfleu yn ystod cyfarfodydd staff. Yn unol â'r elfen hon, mae popeth yr wyf yn ei wneud yn tanategu gweledigaeth yr ysgol. -Gweithredu strategaethau ac ymyriadau er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn cyflawni ei nod o, 'anelu am ragoriaeth'. -Adroddiadau interim a diwedd blwyddyn yr ysgol yn amlinellu'r daith a wnaed tuag at y weledigaeth gyffredinol.	Cydweithio ag ystod o randdeiliaid i adolygu a sefydlu gweledigaeth a nodau'r ysgol ar ôl penodi'n bennaeth.
2	Gweithio o fewn cymuned yr ysgol i droi'r weledigaeth yn amcanion a chynlluniau gweithredu y cytunwyd arnynt, a fydd yn sicrhau bod yr ysgol yn gwella'n barhaus.	-Targedau Rheoli Perfformiad gyda fy nhîm. Byddaf yn cyfarfod â hwy'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod ar y trywydd cywir ac er mwyn cynnig cymorth lle bo angen. -Mae gweledigaeth yr ysgol yn sail ar gyfer cynlluniau gweithredu. -Adolygu cyfarfodydd gosod targedau tymhorol er mwyn sicrhau bod gan athrawon ddyheadau uchel ar gyfer yr holl ddysgwyr. - Cyfarfod a monitro staff ymyrraeth er mwyn sicrhau eu bod yn darparu'r lefelau uchaf o gymorth.	
3	Ymgorffori'r weledigaeth a gwerthoedd trwy eu hymarfer dyddiol a thrwy eiriolaeth barhaus.	-Drwy adolygu RhP, cyfarfodydd adolygu ac ymwneud â rhanddeiliaid, mae'r weledigaeth yn cael ei chyfleu'n barhaus, ac rwyf innau'n rhannu'r un dyhead, 'anelu am ragoriaeth'. -Gweithio ochr yn ochr ag asiantaethau allanol a	Datblygu ethos, nodau a gweledigaeth yr ysgol yn bersonol.

		rhieni i wella ffigurau presenoldeb cyffredinol er mwyn sicrhau bod plant yn bresennol yn rheolaidd ac yn cael pob cyfle i gyflawni hyd eithaf eu gallu.	
4	Ysgogi a gweithio gydag eraill i greu hinsawdd ysgol effeithiol a diwylliant a rennir gan bawb.	-Arsylwadau Nodweddion Llwyddo, adolygiadau RhP, monitro sesiynau, craffu ar lyfrau, gweithio gyda'r Corff Llywodraethu, grŵp rhwydweithio â'r rhieni, cynnwys yr ALI a'r arweinwyr systemau. -Drwy gyflwyno HMS mewnol wedi'i gynllunio'n arbennig er mwyn sicrhau bod anghenion hyfforddi'n cael eu bodloni, er mwyn sicrhau bod addysgeg yr ysgol gyfan yn parhau i wella. -Datblygu perthynas ag ysgolion y clwstwr er mwyn rhannu arfer gorau a chynnig cymorth ac arweiniad. Cyflawnir hyn drwy gyfarfodydd tymhorol. -Datblygu strwythurau i rannu'r arweinyddiaeth ymhellach, gan ddiffinio rolau ac atebolrwydd yn glir.	
5	Defnyddio creadigrwydd, arloesedd a thechnolegau newydd i gyflawni rhagoriaeth.	-iPads, systemau olrhain a meddalwedd ar-lein yn gefnogaeth ychwanegol ar gyfer deilliannau'r dysgwyr.	Dyma faes i'w ddatblygu ymhellach.
6	Sicrhau bod cynlluniau strategol yn ystyried amrywiaeth, gwerthoedd, profiad a chyd-destun yr ysgol a'r gymuned ehangach.	-Cynllun gweithredu cydraddoldeb, cynllun gweithredu hygyrchedd. Adolygiadau blynyddol. -Cysylltu â'r swyddog Cydraddoldeb er mwyn darparu hyfforddiant ar lefel yr ysgol gyfan i athrawon, rhieni a chynorthwywyr addysgu a chynnig cefnogaeth i gydweithwyr y clwstwr pan fo/lle bo angen. -Dathlu amgylchedd ac ynddo gyfoeth o ddiwylliant.	
7	Datblygu'r ysgol ar sail ymrwymiad i wella'n barhaus a datblygiad cynaliadwy.	-Continwa Addysgu ar gyfer Dysgu, Nodweddion Llwyddo, craffu ar lyfrau, cyflwyno hyfforddiant wedi'i gynllunio'n arbennig ar draws yr ysgol a threfnu cyfleoedd am DPP i eraill. -Annog eraill i'w datblygu eu hunain ymhellach drwy achrediad allanol, ee, Prifysgol Edge Hill (1st Class/Numbers Count) a RhyCA (Dal i Fyny).	

Arwain ar ddysgu ac addysgu

Mae sicrhau bod y dysgu a'r addysgu'n effeithiol yn ganolog i fwriad yr ysgol. Mae'r arweinwyr, trwy weithio gyda'r staff a'r llywodraethwyr, yn creu'r amodau a'r strwythurau i gefnogi dysgu ac addysgu effeithiol i bawb.

Mae arweinwyr yn uniongyrchol gyfrifol am safon y dysgu a'r addysgu ac am gyflawniad y dysgwyr. Mae hyn yn golygu gosod disgwyliadau uchel a monitro a gwerthuso effeithiolrwydd y deilliannau dysgu. Dylai'r hinsawdd a'r diwylliant dysgu sy'n cael ei chreu yn yr ysgol alluogi'r dysgwyr i fod yn ddysgwyr effeithiol, brwdfrydig ac annibynnol, a fydd wedi ymrwymo i ddysgu gydol oes, ac yn barod ar ei gyfer

	Safon Arweinyddiaeth	Pa dystiolaeth sydd gennyf yn erbyn y safon yma?	Beth fyddaf yn ei wneud nesaf i lenwi'r bylchau a hybu fy natblygiad arweinyddiaeth?
8	Sicrhau ffocws cyson a pharhaus gan yr ysgol gyfan ar gyflawniad y dysgwyr.	-Wedi trefnu a chadeirio'r dadansoddiad tymhorol o'r garfan. Darparu adroddiad ddwy waith y flwyddyn ar gynnydd dysgwyr gan y plant sy'n derbyn yr ymyrraeth. -Adolygu gweithrediad unrhyw fenter/raglen newydd i fesur ei heffeithiolrwydd drwy ddadansoddi data ac adborth gan ddysgwyr/oedolion. -Drwy adroddiad cynnydd interim rhennir y rhain â'r staff fel bod ganddynt ddealltwriaeth glir o gyflawniadau'r dysgwr/y meysydd sydd angen eu datblygu.	Adborth dadansoddi data (tymor y gwanwyn).
9	Sicrhau bod hinsawdd yr ysgol a'r ystafell ddosbarth yn hyrwyddo dysgu ac addysgu effeithiol i bawb.	-Arsylwi sesiynau/gwersi. -Cynllun Gweithredu Ôl-arolygu ac arwain y diwrnod HMS a'r hyfforddiant. -Hyfforddiant drwy raglen Y Blynnyddoedd Anhygoel. -Cynnal peilot o brosiect KiVa Cymru gyfan – gan ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth barhaus i'r staff, (rhaglen gwrth-fwlio o'r Ffindir). -Arsylwi staff yn anffurfiol pan fyddant yn teimlo y gallai dysgwyr fod yn wynebu rhwystyr	

		rhag dysgu. -Datblygu Cymuned Dysgu Proffesiynol er mwyn gweithredu ymagwedd meddwl arbrofol. -Herio tangyflawni. -Sefydlu clinigau arfer da, fel bo modd rhannu'r arfer gorau ar draws yr ysgol a chynnig cymorth.	
10	Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng llwybrau dysgu academiaidd, galwedigaethol a dysgu drwy brofiad.	Sefydlu grŵp menter i Blant mwy Galluog a Thalentog.	
11	Sicrhau bod dysgu yn ganolog i unrhyw waith cynllunio strategol a rheoli adnoddau.	-Dadansoddi data Ffynnon er mwyn sicrhau bod y data'n goleuo cyfeiriad strategol yr ysgol. -Dadansoddi data Profion Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael eu dynodi'n unol â hynny. Cynllunio ar gyfer GEY, GCA a'r GAD, gweithredu ac adolygu gwariant.	Cymryd cyfrifoldeb i adolygu gwariant y GAD, y GCA a'r GEY gan sicrhau bod y gwariant hwnnw'n cyd-fynd â'r dynodydd(ion) cytunedig.
12	Datblygu polisiau ac arferion i sicrhau cynhwysiant cymdeithasol i bob dysgwr er mwyn sicrhau bod eu hanghenion dysgu unigol yn cael eu bodloni.	-Rhan allweddol yn y gwaith o sefydlu'r polisi a'r cynllun gweithredu cydraddoldeb. Yn ogystal â hyn rwyf wedi llunio polisiau ar AAA, EAL a Phlant mwy Galluog a Thalentog ar gyfer yr ysgol. -Wedi trefnu dwy sesiwn hyfforddi gyda'r hwyr i'r staff ar gydraddoldeb. -Wedi darparu hyfforddiant gyda'r hwyr ar weledigaeth yr ysgol ar gyfer cynhwysiant. -Wedi darparu hyfforddiant gyda'r hwyr ar Gynlluniau Addysg Unigol ac adolygu'r dull o'u gweithredu.	Gweithio ochr yn ochr â swyddogion yr ALI i sicrhau bod yr adeilad yn parhau i fod yn ddigon hygyrch i fodloni anghenion yr holl ddysgwyr.
13	Hyrwyddo a sefydlu polisiau a gynlluniwyd i alluogi dysgwyr i ddod yn annibynnol a chaffael sgiliau meddwl a dysgu.	-Wedi cyflwyno hyfforddiant Meddwl yn Weithredol mewn Cyd-destun Cymdeithasol (MWCC) i'r holl staff a datblygu'r agenda ysgolion sy'n meddwl.	Archwilio egwyddorion meddwl eraill a sicrhau y mesurir eu heffaith yn glir.

14	Sefydlu dulliau creadigol, ymatebol ac effeithiol o ddysgu ac addysgu ym mhob pwnc er mwyn diwallu a chefnogi amcanion yr ysgol.	-Continwa Nodweddion Llwyddo i gynorthwyo athrawon i ddatblygu eu harfer a'u taith unigol tuag at ragoriaeth. -MWCC i godi safonau mewn sgiliau meddwl.	
15	Sefydlu a meithrin ethos o her a chefnogaeth lle gall pob dysgwr lwyddo a bod yn rhan o'i ddysgu ei hunan.	-Wedi ymchwilio i hyfforddiant ymyrraeth o bob rhan o'r DU, a threfnu'r hyfforddiant hwnnw er mwyn sicrhau bod gan yr HOLL ddysgwyr ddiddordeb mewn dysgu a'u bod yn llwyddo. -Wedi darparu hyfforddiant MA a Gradd Meistr mewn Addysgu i'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn cynnig her a chanolbwyntio ar BOB dysgwr. -Wedi trefnu gyda swyddog cymorth yr ALI i ddarparu mwy o hyfforddiant i'r staff ar 'wahaniaethu er mwyn herio'. -Cydwethio â'r cydgysylltydd Dysgwyr Mwy Galluog a Thalentog i sefydlu, adolygu a rhoi cynlluniau gweithredu priodol ar waith.	
16	Rhoi strategaethau ar waith sy'n sicrhau safonau uchel o ymddygiad a phresenoldeb.	-Darparu hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen ar ym maes cymhwysedd cymdeithasol ac emosiynol (rheoli ymddygiad) competence training. Rwyf hefyd wedi rhoi hyfforddiant tebyg i rieni er mwyn sicrhau ieithwedd gyffredin rhwng y cartref ar ysgol.	Cynnig cyfle i ymuno â grŵp 'Tadau yn Unig'.
17	Trefnu a gweithredu'r cwricwlwm fel ei fod yn bodloni anghenion cwricwlwm cenedlaethol Cymru.	-Adolygu'r cyd-destunau dysgu er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y CC a'r FfLIRh. -Wedi datblygu ymagwedd thematig yn CA2 er mwyn bodloni'r cwricwlwm diwygiedig. -Yn gweithio ochr yn ochr â phartner y Rhaglen Gymorth Genedlaethol i adolygu'r FfLIRh a threfnu ffyrdd i blethu gofynion y cwricwlwm â'r FfLIRh.	
18	Rhoi strategaethau ar waith sy'n sicrhau gweithdrefnau asesu effeithiol, gan gynnwys asesu ar gyfer dysgu.	Y Continua. Arsylwi sesiynau.	

		Craffu ar lyfrau. Dadansoddi cohortau. Wedi datblygu fy arfer AfL fy hun tra oeddwn yn yr ystafell ddosbarth.	
19	Datblygu polisïau a gweithdrefnau sy'n hyrwyddo dealltwriaeth dysgwyr o natur ddwyieithog Cymru a datblygu eu sgiliau dwyieithog fel sy'n briodol.	-Wedi astudio cwrs 2 flynedd gyda'r nos mewn arfer dwyieithog yn y Cyfnod Sylfaen er mwyn datblygu fy nealltwriaeth/arfer(ion) ymhellach. -Wedi rhoi cyflwyniad ar y cyd-destun dwyieithog yng Nghymru a myfyrio ar bolisi ac arfer Twf a Iaith Fyw:Iaith Byw.	Datblygu polisïau.
20	Ymgymryd â rôl strategol wrth ddatblygu technolegau newydd i wella ac ymestyn profiadau dysgwyr wrth ddysgu a gallu athrawon wrth addysgu.		Archwilio sut y gall technolegau sydd ar ddod wella profiadau dysgu
21	Monitro a gwerthuso'r cwricwlwm a'i asesu a nodi meysydd i'w gwella a gweithredu arnynt.	-Drwy fonitro llyfrau, sesiynau, teithiau dysgu, trafodaethau â'r staff a'r plant, rwyf yn adolygu'r cwricwlwm yn rheolaidd ac yn gweithredu'n gysylltiedig â meysydd i'w gwella. -Gan fy mod yn arwain tîm y cwricwlwm, rwyf yn goruchwyllo pwnc/maes dysgu ymarferwyr.	
22	Cael ei weld o amgylch yr ysgol ac yn neilltuo cryn amser i gyfathrebu gyda dysgwyr, staff a rhieni.	-Creu polisi drws agored. -Sefydlu gweithdrefnau er mwyn i rieni/gofalwyr gyfarfod â'r aelod(au) mwyaf priodol o'r staff. -Adolygu cynnydd dysgwyr gyda'r rhieni ac aelodau o staff. -Rhoi cymorth i'r staff pan fydd angen. -Yn cael fy ngweld yn amlwg yn yr ystafelloedd dosbarth ac o amgylch yr ysgol.	
23	Rhoi strategaethau ar waith i sicrhau bod anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr yn cael eu bodloni.	-Fel yr athro sy'n gyfrifol am gynhwysiant ar draws y cyfnod cynradd, rwyf yn gweithredu strategaethau'n llawn er mwyn sicrhau bod anghenion yr holl ddysgwyr yn cael eu bodloni.	

Datblygu a gweithio gydag eraill

Mae cysylltiadau effeithiol yn arbennig o bwysig ym maes arweinyddiaeth gan fod arweinwyr, a phenaethiaid yn arbennig, yn gweithio gyda'r gymuned ysgol gyfan. Mae arweinyddiaeth yn cynnwys sefydlu cymunedau dysgu proffesiynol sy'n galluogi pawb i gyflawni. Trwy reoli perfformiad a datblygiad proffesiynol parhaus effeithiol, mae arweinwyr yn galluogi pob aelod o'r staff i gyflawni safonau uchel. Dylai arweinwyr fod yn ymrwymedig i'w datblygiad proffesiynol eu hunain er mwyn sicrhau bod ganddynt y gallu i fynd i'r afael â chymhlethdodau eu rôl a'r amrywiaeth o sgiliau a gweithredoedd arwain sydd eu hangen arnynt.

	Safon Arweinyddiaeth	Pa dystiolaeth sydd gennyf yn erbyn y safon yma?	Beth fyddaf yn ei wneud nesaf i lenwi'r bylchau a hybu fy natblygiad arweinyddiaeth?
24	Trin pobl yn deg, yn gydradd ac ag urddas a pharch i greu a chynnal hinsawdd gadarnhaol yn yr ysgol.	-Cadw at bolisïau a gweithdrefnau'r ysgol, e.e. absenoldeb salwch, Rheoli Perfformiad. -Arwain cyfarfodydd Cynorthwywyr Addysgu er mwyn sicrhau bod yr holl aelodau o staff yn derbyn negeseuon allweddol. -Polisi drws agored er mwyn i staff yr ysgol drafod seyllfaoedd a chynnig cyngor.	Sicrhau bod sgysrsiau anodd yn ddiamwys.
25	Rhannu a dosbarthu arweinyddiaeth.	-Rwyf yn darparu hyfforddiant lle bo angen er mwyn sicrhau y gall athrawon a chynorthwywyr addysgu unigol gynnal asesiadau'r dysgwyr. -Dirprwyo cyfrifoldebau lle bo'n briodol. -Lle bo modd, cyflawni cyfrifoldebau'r Pennaeth pan fydd yn absennol. -Yn cefnogi cydweithwyr yn eu rolau.	
26	Datblygu, grymuso a chynnal timau effeithiol.	-Cynnal cyfarfodydd adrannol (canolfannau adnoddau arbenigol) a'r tîm ymyrraeth yn rheolaidd. -Cadeirio cyfarfodydd wythnosol y Cynorthwywyr Addysgu—sgysrsiau ar destunau arbennig ac/neu hyfforddiant. -Arwain 2 dîm dysgu gwahanol—dadansoddi data. -Gweithio gydag Uwch Dimau Arwain eraill i'w galluogi i ddadansoddi set ddata Cymru Gyfan —Cynllunio	

		llawlyfr ar gyfer cydgysylltwyr pwnc y cwricwlwm sydd wedi'i groesgyfeirio yn erbyn safonau athrawon wrth eu gwaith. -Rôl Mentor Ardal ar gyfer Consortia ardal yr ALI. Yn cefnogi athrawon ac athrawon-fyfyrwyr dan hyfforddiant. Cyfryngu pan fo angen.	
27	Creu amgylchedd y gall eraill ddatblygu'n broffesiynol ynddo.	-Rwyf yn darllen cyfnodolion proffesiynol ac erthyglau mewn papurau newydd a chylchgronau er mwyn cael gwybod am yr hyfforddiant diweddaraf a defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu aelodau o staff ymhellach. -Darparu hyfforddiant i gynorthwywyr addysgu, athrawon a rhieni. Rwyf hefyd yn cysylltu â rhanddeiliaid allanol er mwyn darparu hyfforddiant i gymuned yr ysgol, gan gynnwys y Corff Llywodraethu. -Wedi galluogi cynorthwydd addysgu i ymgeisio am achrediad CALU. -Mentor myfyrwyr ar gyfer yr ysgol a'r ALI. -Wedi rhoi darlithoedd i athrawon dan hyfforddiant yn y Brifysgol ar rôl y Cydgysylltydd AAA.	
28	Datblygu a meithrin potensial arweinyddiaeth mewn eraill er mwyn datblygu ar y gallu i arwain yn yr ysgol.	-Mae aelod o'r staff wedi nodi ei fod yn dymuno gwneud cynnydd pellach gyda'i rôl arweinyddol. O wybod hyn, rwyf wedi cynnig cyfleoedd iddo hyfforddi, monitro a gwerthuso darpariaeth – SP yn gweithio gyda swyddog ALI wedi'i hyfforddi ar ymyrraeth – ac wedi monitro'r ddarpariaeth a'r deilliannau. -Cynorthwyo Cynorthwywyr Addysgu sy'n dymuno datblygu eu rolau arweinyddol ymhellach. -Wedi trefnu hyfforddiant i'r dysgwyr drwy PALS, er mwyn iddynt allu datblygu eu sgiliau arwain. -Wedi hyfforddi athrawon i gyflawni eu rôl fel mentor dosbarth. -Wrth adolygu cyfrifoldebau'r arweinwyr pwnc, cefais y dasg o lunio canllaw arfer da.	Cynorthwyo'r staff i ddatblygu proffil Coch Melyn Gwyrdd yn erbyn safonau arweinyddiaeth ac athrawon proffesiynol.
29	Datblygu diwylliant dysgu cydweithredol yn yr ysgol a chwilio am gyfleoedd i greu cysylltiadau â	-TASC adolygu arferion a gweithdrefnau– gweithredu drwy grŵp craidd o athrawon ac yna darparu'r	

	sefydliadau addysgol eraill i ddatblygu cymunedau dysgu effeithiol.	hyfforddiant fesul cam. -Ymagwedd TAPPAS (Tîm o Amgylch y Disgybl, y Rhiant a'r Ysgol) yn fy ardal – Fi oedd Cadeirydd y clwstwr, ac yn sgil hyn darparais hyfforddiant ac adborth i'r ALI. -Gweithio gydag ysgolion eraill i adolygu. -Menter ar y cyd rhwng ysgol arall a'n hysgol ni er mwyn sefydlu'r rhaglen paratoi ar gyfer yr ysgol.	
30	Sicrhau bod yr ysgol yn cyfrannu, lle yn briodol, at hyfforddiant athrawon y dyfodol ac oedolion eraill sy'n gweithio gyda dysgwyr.	-Mentor penodol ar gyfer cynorthwywyr addysgu sy'n derbyn hyfforddiant. -Mentor athrawon ar gyfer athrawon dan hyfforddiant. -Mentor clwstwr ar gyfer y Rhaglen Gymorth Genedlaethol.	
31	Datblygu a chynnal strategaethau a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer sefydlu staff, datblygiad proffesiynol cynnar a pharhaus ac adolygu perfformiad.	-Llawlyfr ysgrifenedig i'r staff. -Wedi darparu hyfforddiant ymsefydlu i staff ysgol. -Arweinydd tîm RhP ar gyfer athrawon, cynorthwywyr addysgu ac aelodau staff o'r Uwch Dîm Arwain. -Cyflenwi hyfforddiant clwstwr ar gyfer ANG.	
32	Sicrhau bod y gwaith a wneir gan dimau ac unigolion yn cael ei gynllunio, ei ddyrannu, ei gefnogi a'i werthuso'n effeithiol, gan sicrhau bod tasgau a chyfrifoldebau'n cael eu dirprwyo'n glir.	-Adolygu arferion canolfannau adnoddau arbenigol. -Adolygu ymyriadau er mwyn sicrhau fy mod yn datblygu'r capasiti i staff gefnogi'r dysgwyr. -Amserlen y staff. -Monitro gwersi a gwaith ymyrryd a rhoi adborth priodol. -Cylch RhP. -Hyfforddiant wedi'i gynnig – rhieni, athrawon a chynorthwywyr addysgu. -Cefnogaeth i'r holl aelodau o staff ddatblygu eu rolau ymhellach.	
33	Cydnabod cyfrifoldebau a chyflawniadau unigolion a thimau, a'u dathlu.	-Drwy gyfarfodydd y tîm cynhwysiant rydym yn adolygu cynnydd ac yn dathlu ymarfer. -Yn darparu DPP parhaus i holl aelodau fy nhîm a'u hannog i ennill achrediad, fel bo odd iddynt ddathlu eu	

		rolau'n llawn.	
34	Adolygu a phwyso a mesur eu hymarfer yn rheolaidd, pennu targedau personol a chymryd cyfrifoldeb dros eu datblygiad personol.	-Trafod anghenion hyfforddi â'r Pennaeth. -Mynd ar gyrsiau gyda'r hwyr i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth am wahanol feysydd. -Yn ysgrifennu papurau ymchwil myfyriol. -Wedi ymgeisio i gael fy mhenodi i amrywiaeth o gyrff llywodraethu. -Myfyrio ar gynnydd proffesiynol hyd yma er mwyn cynllunio'r camau nesaf.	
35	Rhoi sylw i'w baich gwaith eu hunain a phobl eraill i sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.	-Cynigir cyfarfodydd cynorthwyyr addysgu, ond cyfyngir ar yr amser ar gyfer hynny. -Adolygu amser dysgu dan gyfarwyddyd yr athrawon, er mwyn sicrhau nad ydynt yn teimlo eu bod dan ormod o bwysau.	
36	Sicrhau bod trefniadau effeithiol ar gael ar gyfer cydlynu'r ddarpariaeth i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.	-Clwstwr – cynnig cefnogaeth i ymarferwyr eraill lle bo angen a gofyn am gefnogaeth ac arweiniad er mwyn gwella'r cyfleoedd i blant yn yr ysgol, ee, Sgwad Ysgrifennu ac ati. -Iechyd – gweithio gydag amrywiaeth o weithwyr iechyd proffesiynol er mwyn sicrhau bod plant yn derbyn darpariaeth briodol, fydd yn gwella'u deilliannau cyffredinol.	

Rheoli'r ysgol			
Mae angen i arweinwyr ddarparu trefniadaeth a rheolaeth effeithiol yn yr ysgol y maen nhw'n ei harwain a sicrhau bod yr ysgol a'r bobl, a'r adnoddau sydd ynddi, yn cael eu trefnu a'u rheoli i greu amgylchedd dysgu effeithlon, effeithiol a diogel. Dylai arweinwyr gyflwyno prosesau effeithiol i ddatblygu ac adolygu polisïau a chynlluniau a sicrhau bod defnydd effeithiol ac effeithlon yn cael ei wneud o'r adnoddau a'r cyllid sydd ar gael.			
	Safon Arweinyddiaeth	Pa dystiolaeth sydd gennyf yn erbyn y safon yma?	Beth fyddaf yn ei wneud nesaf i lenwi'r bylchau a hybu fy natblygiad arweinyddiaeth?
37	Sicrhau bod y dyletswyddau proffesiynol a'r amodau gwaith fel yr amlinellir yn y gofynion statudol, gan gynnwys y rhai sy'n berthnasol i'r pennaeth, yn cael eu bodloni.	-Cadw at weithdrefn recriwtio ddiogel wrth hysbysebu am staff a'u penodi. -Sicrhau bod gofynion statudol, e.e. RhP wedi'u bodloni. -Trefnu hyfforddiant diogelu i'r holl staff.	Dysgu mwy am faterion iechyd a diogelwch.
38	Cynhyrchu a gweithredu cynlluniau a pholisïau gwella clir, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar gyfer datblygu'r ysgol a'i chyfleusterau.	-Mewnbwn blynyddol er mwyn datblygu ac ysgrifennu Cynllun Gwella'r Ysgol. -Datblygu cynlluniau gwella'r cwricwlwm ac/neu fugeiliol unigol yn seiliedig ar hunanwerthusiad. -Dadansoddi data er mwyn goleuo cynlluniau gwella. -Adolygiadau tymhorol er mwyn sicrhau bod yr ysgol ar y trywydd iawn er mwyn cyflawni ei nodau. -Wedi ysgrifennu amrywiaeth o bolisïau a ddatblygwyd yn sgil ymarfer myfyriol.	
39	Sicrhau bod polisïau ac arferion yn ystyried amgylchiadau, polisïau a mentrau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys dwyieithrwydd a'r dimensiwn Cymreig.	-Rhoddir ystyriaeth i flaenoriaethau cenedlaethol mewn prif gynlluniau gwella. -Rhoddir ystyriaeth i nodau lleol wrth ymgysylltu â rhieni. -Trefnu hyfforddiant dwyieithog i gynorthwyyr addysgu er mwn hyrwyddo'r iaith ymhellach.	

40	Creu, ailfodelu a chynnal strwythurau a systemau trefniadol sy'n rhannu arweinyddiaeth ac yn caniatáu i'r ysgol gael ei rhedeg yn effeithlon ac effeithiol o ddydd i ddydd.	-Adolygu rolau cydgysylltydd y cwrwllwm er mwyn datblygu'r ysgol ymhellach. Holiadur a dadansoddi ymateb(ion) y staff. -Gweithio'n agos â'r Pennaeth i adolygu trefn a symudiadau'r staff. -Ailddyrannu cynorthwywyr addysgu i fodloni gofynion yr ysgol ymhellach. -Cwrdd â'r staff i ddatrys neu drafod heriau er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn effeithiol.	
41	Monitro, gwerthuso ac adolygu effaith polisiâu, blaenoriaethau a thargedau'r ysgol ar waith.	-Adolygu polisiâu (rheoli ymddygiad) gyda'r Pennaeth er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben. -Cynllun Gweithredu Ôl-arolygu a Chynllun Gwella'r Ysgol yn flaenoriaeth ar gyfer MA/Gradd Meistr mewn Addysgu. -Mae dadansoddi'r cohort o gymorth i sicrhau ein bod yn cadw ar y trywydd iawn er mwyn cyrraedd targedau heriol.	
42	Gweithredu ar ganlyniadau ymarferion hunanarfarnu yr ysgol ac arolygiadau allanol gan Estyn i ysgogi gwelliannau yn yr ysgol.	-Rwyf yn chwarae rhan allweddol yn Adolygiad Hunanarfarnu'r Ysgol ac ym mhroses yr ysgol. -Croesawu argymhellion gan ESTYN ac yn ysgrifennu Cynllun Gweithredu Ôl-arolygu. -Yn adolygu cynnydd yn gyson er mwyn sicrhau bod yr ysgol ar y trywydd iawn.	
43	Defnyddio gwybodaeth a data o'r ysgol, ac o'r tu allan iddi, fel sail i ddatblygiadau rheolaethol a threfniadol.	- Dadansoddi data Ffynnon. - Gosod targedau mewnol. - Dadansoddi data profion cenedlaethol. - Gwrando ar ddysgwyr. - Craffu ar lyfrau. - Arsylwadau ffurfiol ac anffurfiol.	
44	Gwneud defnydd effeithiol o'r gefnogaeth a'r her a gyflwynir gan yr ALI a chyrrff perthnasol eraill.	-Gweithio gyda swyddogion ALI – teithiau dysgu ac arsylwadau uniongyrchol. -Cymorth yr ALI lle bo angen. -Cysylltu ag arweinydd systemau'r ysgol er	

		mwyn adolygu cynnydd.	
45	Rheoli adnoddau ariannol ac adnoddau dynol yr ysgol yn effeithiol ac effeithlon i gyflawni blaenoriaethau a nodau addysg yr ysgol.	-Wedi cydymffurfio â gofynion AD wrth hysbysebu ar gyfer staff a'u recriwtio. -Adolygu cynlluniau gwariant GEY, GCA a GAD. -Adolygu cynlluniau gwariant cynlluniau gweithredu unigol.	Dyma faes i'w ddatblygu ymhellach.
46	Recriwtio, cadw a defnyddio staff yn briodol a rheoli eu llwyth gwaith i wireddu gweledigaeth a nodau'r ysgol.	Drwy is-bwyllgor y corff llywodraethu ar gyfer recriwtio staff yr ysgol, rwyf wedi cymryd rhan mewn cyfweiliadau ar gyfer cynorthwyyr addysgu, athrawon, deiliaid cyfrifoldebau addysgu a dysgu a Dirprwy Benaethiaid.	
47	Rheoli a threfnu amgylchedd yr ysgol yn effeithlon ac effeithiol i sicrhau ei fod yn bodloni anghenion y cwricwlwm a rheoliadau iechyd a diogelwch.		Dyma faes i'w ddatblygu ymhellach.
48	Datblygu a gwella'r amgylchedd dysgu i fodloni anghenion dysgwyr yn well.	Wrth adolygu arferion cyfredol rydym wedi dyrannu'r amgylchedd dysgu fel cyfrifoldeb.	
49	Monitro, gwerthuso ac adolygu amrywiaeth, ansawdd a defnydd yr holl adnoddau sydd ar gael i wella safon yr addysg i bob dysgwr a sicrhau gwerth am arian.		Datblygu fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth ynghylch cyllid yr ysgol drwy gymryd rhan fel arsyllwr yn yr is-bwyllgor cyllid.

Sicrhau atebolrwydd			
Mae penaethiaid yn atebol i'r corff llywodraethu am reolaeth yr ysgol, ei hamgylchedd a'i holl waith. Mae'r pennaeth yn atebol i'r corff llywodraethu, y dysgwyr, y rhieni, y llywodraethwyr a'r Awdurdod Lleol am safon yr addysg a gynigir yn yr ysgol, ac mae ganddo ef neu hi gyfrifoldeb proffesiynol i'r gymuned gyfan. Hefyd, mae arweinwyr yn gyfrifol am sicrhau cydgyfrifoldeb, fel bod pob aelod o gymuned yr ysgol yn derbyn eu bod yn atebol am y cyfraniad y maen nhw'n ei wneud tuag at ganlyniadau'r ysgol.			
	Safon Arweinyddiaeth	Pa dystiolaeth sydd gennyf yn erbyn y safon yma?	Beth fyddaf yn ei wneud nesaf i lenwi'r bylchau a hybu fy natblygiad arweinyddiaeth?
50	Sicrhau bod atebolrwydd aelodau staff unigol wedi'i ddiffinio'n glir, ac wedi'i ddeall a'i gytuno, ac yn destun trefniadau adolygu mewnol ac allanol a hunanarfarnu trylwyr.	Cylch RhP yr athrawon, y cynorthwywyr addysgu, staff gweinyddol a'r Uwch Dîm Arwain. RhP y Pennaeth gan weithio gydag arweinydd systemau'r ysgol. Adolygu Nodweddion Llwyddo gan roi adborth i staff allweddol. Pan fydd angen mynd ar drywydd datblygiad, cytunir ar hynny a chyflawni hynny o fewn terfynau amser.	
51	Gweithio gyda'r corff llywodraethu fel ei fod yn medru cyflawni ei gyfrifoldebau i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol a gwella safonau cyrhaeddiad.	Yn bresennol yng nghyfarfod corff llywodraethu fy ysgol bresennol fel arsyllwr. Wedi cymryd rhan mewn sawl corff llywodraethu fel LA, athro a Llywodraethwr cymunedol. Gweithio gyda'r GB i gyrraedd nod cyffredin. Cymryd rhan mewn ystod o is-bwyllgorau ac wedi adolygu'r cwricwlwm a'r safonau'n unol â hynny RhP y Pennaeth.	
52	Datblygu a chyflwyno adroddiad cydlynol, dealladwy a chywir o berfformiad yr ysgol i amryw o gynulleidfaoedd gan gynnwys rhieni a llywodraethwyr.	Gweithio'n agos â'r Uwch Dîm Arwain er mwyn cyflwyno perfformiad cyfredol yr ysgol i arweinydd systemau'r ysgol.	
53	Defnyddio data a meincnodau i fonitro'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan bob plentyn wrth ddysgu ac i roi ffocws i'r addysgu.	Gosod targedau. Dadansoddi data Ffynnon. Dadansoddi profion cenedlaethol. Trafodaethau ynglŷn â'r cohort â'm cydweithwyr.	Cyfleu'r chwarteli meincnodi'n glir wrth y gymuned ehangach o staff.

54	Gosod targedau ymestynnol ar gyfer cymuned yr ysgol gyfan yn seiliedig ar ddisgwyliadau sy'n gyson uchel.	Wrth ddadansoddi'r cohort, cynnal trafodaeth fanwl â'r staff ynglŷn â'r angen am dargedau uchelgeisiol, a'r gwahaniaeth rhwng gosod targedau a'u cyrraedd. Cydweithio â'r Pennaeth a'r cydgysylltydd ARR i osod targedau priodol ar gyfer y plant a'r ysgol yn ei chyfanrwydd.	
55	Datblygu a chynnal hinsawdd o ddisgwyliadau uchel ar gyfer eu hunain ac eraill ac yn cymryd camau priodol pan fo perfformiad yn anfoddhaol.	Ailymweliadau Nodweddion Llwyddo ar gyfer athrawon lle cafwyd meysydd sydd angen gwelliant sylweddol. Rhoi adborth effeithiol drwy graffu ar lyfrau dysgwyr, fel bod athrawon a dysgwyr yn cyflawni hyd yr eithaf. Ailbwysleisio'r angen am dargedau heriol ar bob achlysur.	

Cryfhau'r ffocws cymunedol

Dylai arweinwyr fod yn ymwybodol bod gwelliannau yn yr ysgol ac yn y gymuned yn ddibynnol ar ei gilydd ac yn dibynnu ar gydweithio effeithiol rhwng pawb sydd â diddordeb. Dylai arweinwyr annog trefniadau i gydweithio ag ysgolion a sefydliadau eraill, a chymryd rhan yn y trefniadau hynny, er mwyn dod â manteision i'r ysgol ac i rannu ei harbenigedd. Yn yr agwedd hon ar arweinyddiaeth, bydd rhaid i arweinwyr sicrhau cyfranogiad a chefnogaeth rhai o'r tu allan i'r ysgol.

	Safon Arweinyddiaeth	Pa dystiolaeth sydd gennyf yn erbyn y safon yma?	Beth fyddaf yn ei wneud nesaf i lenwi'r bylchau a hybu fy natblygiad arweinyddiaeth?
56	Sefydlu a meithrin partneriaethau ag ysgolion eraill i rannu arfer gorau a chefnogi'r broses o wella ysgolion.	TAPPAS yn fy maes fy hun – yn gweithio gyda Chydgysylltwyr AAA i gynnig darpariaeth well i ddysgwyr a'u teuluoedd.	Dyma faes i'w ddatblygu ymhellach.
57	Creu hinsawdd a diwylliant dysgu yn yr ysgol sy'n ystyried cyfoeth ac amrywiaeth cymuned yr ysgol, gan gynnwys yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig.	Trefnu dathliadau diwylliannol - Eid, Y Flwyddyn Newydd Tsieinëeg a Diwali. Adolygu'r ddarpariaeth gyfredol ar gyfer yr Eisteddfod er mwyn rhoi mwy o gefnogaeth i'r ysgol gael dathlu diwylliant Cymru. Arwyddion amlieithog o amgylch yr ysgol er mwyn dathlu'r amrywiaeth o ieithoedd a siaredir.	Gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr y clwstwr i ddathlu amrywiaeth gyfoethog yr ardal drwy gynnal Mela Diwylliannol ar y cyd.
58	Sicrhau bod gan yr ysgol ran gynhyrchiol fel aelod o'i chymuned leol, a'r gymuned genedlaethol a byd-eang.	-Connecting Classrooms – wedi arwain prosiect gyda gwledydd Botswana a Tanzania yn Affrica Is-Sahara. -Yn gweithio'n agos â chydgyssylltydd ysgolion rhyngwladol presennol yr ysgol er mwyn sefydlu cysylltiadau.	
59	Creu a hyrwyddo strategaethau cadarnhaol i ddatblygu cysylltiadau hiliol da ac i fynd i'r afael ag aflonyddu hiliol.	-Wedi gweithio gyda Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth er mwyn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth plant ynghylch materion hil ymhellach. -Gweithio gydag EMTAS i gefnogi teuluoedd yn iaith y cartref – BTA ac athrawon arbenigol. -Rhaglen paratoi ar gyfer yr ysgol i gefnogi	

		dysgwyr EAL wrth iddynt ddechrau'r ysgol.	
60	Hyrwyddo agweddau priodol tuag at anabledd ac anghenion dysgu ychwanegol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant.	Arwain cynhwysiant. Sefydlu cynllun hygrychedd ar gyfer yr holl ddysgwyr a'u teuluoedd. Darparu hyfforddiant i'r staff ar anghenion dysgu penodol, ee, hyfforddiant nam ar y clyw.	
61	Sicrhau bod yr ysgol yn chwarae rhan ganolog yn y gymuned.	-Ymuno â Chymdeithas Rhieni a Chyfeillion yr Ysgol mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau. -Wedi ysgrifennu at grwpiau cymunedol yn gofyn iddynt ymuno â'r ysgol mewn menter ar y cyd.	
62	Datblygu dinasyddiaeth dysgwyr er mwyn iddynt wneud cyfraniad cadarnhaol i'r gymuned leol a'r gymuned ehangach.		Dyma faes i'w ddatblygu ymhellach.
63	Cydweithio ag asiantaethau eraill, gan gynnwys yr ALI, i ddarparu ar gyfer lles dysgwyr a'u teuluoedd.	-Gweithio'n agos â CAB, Seicolegydd Addysg yr ysgol ac athrawon arbenigol eraill er mwyn sicrhau bod HOLL anghenion dysgwyr yn cael eu bodloni. -Grŵp SAP wedi'i sefydlu. -Cefnogaeth ELSA wedi'i darparu. -Clinig galw heibio wedi'i drefnu gyda Seicolegydd Addysg yr ysgol. -Wedi ymchwilio i'r defnydd o arolwg ar-lein PASS er mwyn canfod beth yw anghenion y dysgwyr. -Darparu hyfforddiant Y Blynyddoedd Anhygoel i rieni er mwyn iddynt allu cefnogi cymhwysedd emosiynol ac ymddygiadol eu plant. -Gweithio gyda CAMHS ac asiantaethau iechyd eraill er mwyn sicrhau bod dysgwyr a'u teuluoedd yn derbyn cefnogaeth briodol.	
64	Creu a chynnal partneriaeth effeithiol â rhieni, gwarchodwyr a gofawyr i gefnogi cyflawniad a datblygiad proffesiynol	-Adolygu cynnydd rheolaidd â rhieni. -Cynnig drws agored i drafod pryderon	

	dysgwyr, a'u gwella.	rhieni/gofalwyr. -Yn bresennol mewn adolygiadau Plant Dan Ofal gyda'r gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau bod gofalwyr yn cael cefnogaeth.	
65	Cydweithio yn yr ysgol a thu allan iddi i gyflawni nodau ac amcanion yr ysgol.	-Gweithio gydag arweinwyr cyfnod ac athrawon er mwyn gweithio tuag at nodau cyffredin. -Cysylltu â'r cynorthwyywyr addysgu i adolygu targedau penodol er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod yr hyn a ddisgwylir.	
66	Cydweithio ag athrawon a chydweithwyr, gan gynnwys y rheini o asiantaethau allanol, i wella dysgu a lles y rheini y maen nhw'n eu haddysgu.	-Rhoi cefnogaeth i athrawon, plant a'u teuluoedd drwy gysylltu ag asiantaethau allanol. -Atgyfeirio i sefydliadau gwirfoddol er mwyn rhoi cefnogaeth i blant, ee, gweithredu dros blant a'r Panel Cynhwysiant a Chymorth Ieuenctid.	